# COFNODION CYFARFOD MISOL
# CYNGOR CYMUNED PISTYLL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 11eg o Ionawr, 2022** |
| **AMSER** | **7.00 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Cyfarfod rhithiol - Zoom** |
| **CADEIRYDD** | **Ynyr Ellis** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Gan nad oedd yn bosib i Ynyr Ellis fynychu'r cyfarfod, cadeiriodd yr Is- Gadeirydd sef Sianelen Pleming **(SP).**<br><br>Croesawodd **(SP)** bawb i'r cyfarfod a dymuno blwyddyn newydd dda.<br><br>Yn bresennol roedd Lisbeth James **(LJ)**, William Jones **(WJ)**, Sara Williams **(SW)**, Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GJ)**, Cyng. Aled Wyn Jones **(AWJ)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Ynyr Ellis **(YE)**, John Owen **(JO)**, Olwen Roberts **(OR)** ac Emlyn Hughes **(EH).** |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD RHAGFYR 2021** |
| **4.** | **a) CYFLWYNO A MABWYSIAD**<br>Cynigiodd LJ gywirdeb cofnodion Rhagfyr gyda SW yn eilio a phawb yn cytuno.<br><br>**b) MATERION YN CODI**<br><br>Derbyniwyd yr ymateb canlynol i gwynion Rhagfyr gan Briffyrdd Dwyfor:<br><br>**i.** **<u>Twmpathau</u>**<br>Mae'r gwaith o atgyweirio'r twmpathau yn cael ei gynnwys yn rhaglen waith mis Ionawr. Mae'r cais am dwmpathau ychwanegol wedi cael ei anfon ymlaen i Drafnidiaeth gyda chais iddynt ymateb i chi'n uniongyrchol.<br><br>**ii.** **<u>Arwydd 'Cerddwyr'</u>**<br>Mae'r pwynt yma wedi cael ei anfon ymlaen i'r Adran Llwybrau gyda chais iddynt ymateb i chi'n uniongyrchol.<br><br>**iii.** **<u>Arwyddion Dŵr ar Lôn y Nant</u>**<br>Bydd y gwaith o symud postia'u Dŵr Cymru yn cael ei ychwanegu ar y rhaglen waith.<br><br>**iv.** **<u>Arwydd Pistyll</u>**<br>Wedi cael ei godi erbyn hyn.<br><br>Y clerc i ddilyn mater (i) y twmpathau gan bwysleisio ei bod angen cael ei ymestyn dros y lon gan fod modurwyr yn gyrru yn ganol y lon i geisio osgoi niwed i'w ceir. |
| **5.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim |

*LLOFNODWYD ............................................................................ DYDDIAD ............................................................................*

| | |
|---|---|
| **6.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | **a) OR - CYSGODFA BWS - LLECHI YN RHYDD**<br><br>Roedd OR wedi cysylltu â'r clerc yn ystod y mis i adrodd y broblem. Trafodwyd gyda GJ y ffordd orau ymlaen gydag ef yn awgrymu cysylltu ag Dafydd oedd wedi gwneud gwaith ar y gysgodfa yn y gorffennol. Nid oedd y clerc wedi derbyn ymateb yn ôl gan OR i gadarnhau ei bod wedi gwneud hyn. Cytunodd GJ i ddilyn y mater. |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **a) RHIF CAIS: C21/1196/43/LL - TŶ RALLT, LLITHFAEN, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6PA**<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Gosod 2 res o baneli solar ffotofoltaidd ar gyfer defnydd domestig<br>Dim yn amharu a neb nac i'w gweld o'r lon - cytunodd ei fod yn fater i'w hybu, dim gwrthwynebiad<br><br>**b) RHIF CAIS/APP REF: C21/1225/43/DT - SŴN Y MÔR, 5, MOUNT PLEASANT, LLITHFAEN, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6NU**<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Dymchwel porth blaen presennol a chodi estyniad blaen newydd ynghyd ag addasu ffenestri<br>Dim gwrthwynebiad |
| **8.** | **Y MAES PARCIO, NANT** |
| | Cadarnhaodd SP bod y Cyfreithiwr bellach wedi derbyn datganiadau GJ a JO. Disgwylir i'r broses cofrestru gymryd rhai wythnosau i'w gwblhau. Yn unol â pholisi'r cyfreithwyr, disgwylir taliad cyn gyrru'r dogfennau yn eu blaen - y clerc i weithredu. |
| **9.** | **Y GANOLFAN** |
| | Adroddodd SP nad oedd dim wedi symud ymlaen parthed gwaith bellach ar y ganolfan. Adroddodd bod diffyg ymateb y Cyngor Sir yn rhwystredig wrth gysidro bod ymholiadau wedi cychwyn er fis Tachwedd. Nodwyd bod trafodaethau mewnol yn yr adran gyfreithiol angen eu cynnal cyn symud ymlaen. Cytunodd i barhau gydag ymholiadau yn ystod y mis.<br><br>Bydd yn gofyn yn garedig am unrhyw adborth erbyn cyfarfod y Ganolfan ar y 1af o Chwerfor, awgrymodd AJ iddi gopio Pennaeth yr Adran a'r Prif Weithredwr i'w cheisiadau. |
| **10.** | **MATERION LLEOL** |
| | **a) <u>LLWYBR TROED I LITHFAEN</u>**<br>Esboniodd SP ei bod wedi derbyn gwybodaeth gan swyddog o'r Cyngor nad oedd cais am lwybr troed diogel i Lithfaen wedi ei dderbyn. Cytunodd AJ wneud ymholiadau.<br><br>**c) <u>CYFARFOD Y CAPEL ISAF</u>**<br>Adroddodd SP bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn y festri nos Lun nesaf y 17/01/22 yn y festri am 7o'r gloch<br>Y clerc i yrru mlaen gwybodaeth am help gyda thanwydd ymlaen iddi flaen llaw. |
| **11.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| **12.** | **a) WILLIAM ADAMS – BAND EACH FFIBROPTIC – POSTERI I FACEBOOK**<br>Yn dilyn cyfarfod Rhagfyr roedd William Adams wedi gyrru gwybodaeth ymlaen i'r clerc i'w rannu gyda SP ac LJ i'w atodi i dudalen Facebook Llithfaen.<br>Adroddodd SP er gwaethaf fod hwn yn gynlyn cyffroes, nid oedd y wybodaeth yn ddigonol i'w gyhoeddi ar y dudalen gan fod gwybodaeth bellach yr oedd yn cyfeirio ato ar goll. Y clerc i ofyn iddo wneud rhai cywiriadau a'i ail yrru yn gyflawn. |

*LLOFNODWYD* ............................................................................... *DYDDIAD* ..............................................................................

| | |
|---|---|
| | **b) CAIS AM GEFNOGAETH GAN GLERC CYNGOR GYMUNED LLANBEDROG PARTHED LLIFOGYDD AR YR A499 PWLLHELI I LANBEDROG.**<br>Y clerc i yrru cefnogaeth ymlaen.<br><br>**c) DIWEDDARIAD PARTHED TREFNIADAU AR GYFER LLENWI BINIAU HALEN Y WARD AM Y FLWYDDYN.**<br>Croesawyd y wybodaeth. |
| **13.** | **CYLLID** |

**a)** <u>**CYSONIAD**</u>

Cytunodd yr aelodau dderbyn y cysoniad yn gywir.

**b)** <u>**CYFRIFLEN BANC**</u>

<u>**Cyfrif Cyfredol – 1af o Ragfyr – 31 o Ragfyr 2021**</u>

| **BALANS CYCHWYN -** | | **£12,165.26** |
|---|---|---|
| **RHIF SIEC** | **TALIADAU** | **DERBYNIADAU** |
| 201221 | 320.00 | |
| 201222 | 28.00 | |
| 201223 | 170.00 | |
| **BALANS CAU –** | | **£11,647.26** |

<u>**Cyfrif Cadw – 7fed o Ragfyr – 6ed o Ionawr 2021**</u>

| **BALANS CYCHWYN -** | **£2,660.94** |
|---|---|
| | **DERBYNIADAU** |
| | 0.00 |
| **BALANS CAU** | **£2,660.94** |

**c)** <u>**TALIADAU I'W CYMERADWYO**</u>

| | | |
|---|---|---|
| **201224** | Cyflog Clerc | 160.00 |
| **210225** | Treuliau Clerc | 21.95 |
| **210226** | Roberts Electrical | 130.00 |

| | |
|---|---|
| **14.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | Cytunodd yr aelodau gynnal eu cyfarfod yn Tabor ar y 8fed o Chwerfor 2022<br><br>**Copïau papur o geisiadau Cynllunio** |

*LLOFNODWYD ............................................................................ DYDDIAD ............................................................................*

*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*